

Glan-yr-afon: Ysgol Gynradd y Santes Fair
Llwybrau Diogel yn y Gymuned

Adroddiad Ymgynghori

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion uchod rhwng 17/07/2017 a 31/07/2017. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn dros wyliau'r haf, ac ystyriwyd gohebiaeth a dderbyniwyd ar ôl y dyddiad cau yn rhan o'r adroddiad hwn.

Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â phryderon lleol pan yn bosibl.

O'r 166 eiddo yr ymgynghorwyd â nhw a'r 8 hysbysiad safle a arddangoswyd ar y safle, derbyniwyd 28 ymateb unigol, yn cynnwys rhai ysgrifenedig ac ar y ffôn, wedi eu crynhoi fel a ganlyn:

6	Cefnogi'r cynllun
5	Dim yn cefnogi nac yn anghytuno, wedi rhoi sylwadau / awgrymiadau
17	Anghytuno â'r cynigion

Derbyniwyd deiseb gydag 8 llofnod a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig. Roedd 3 o'r deisebwyr hefyd wedi cyflwyno ymatebion unigol.

Mae'r pryderon a'r sylwadau wedi eu crynhoi, ynghyd ag ymateb y Cyngor. Dangosir sampl o'r sylwadau isod dan bob is-bennod mewn llythrennau italig.

Argymhelliad

O ystyried yr adroddiad isod, cynigir bwrw ymlaen gyda rhoi'r cynllun diwygiedig ar waith, yn amodol ar y cyllid fydd ar gael.

Mae'r cynllun wedi'i ddiwygio o'r manylion a nodir ar y cynllun ymgynghori.

- Caiff y groesfan sebra arfaethedig y tu allan i rif 84 ei dynnu o'r cynllun, a bydd y Patrol Croesi Ysgol yn parhau i gael ei weithredu ar y rhwystr ymwthiol h.y. y tu allan i rif 78.
- Caiff y marciau ffordd igam-ogam eu lleihau gymaint â phosibl i leihau faint o leoedd parcio a gollir.
- Cynhelir arolygon i asesu p'un ai bod y lleoliad hwn yn diwallu'r meini prawf ar gyfer cynllun parcio preswylwyr 75%.

Rydym yn asesu p'un ai a ellid lleoli croesfan sebra mewn lleoliad amgen ar Wyndham Crescent. Mae dyluniad y cysyniad wrthi'n cael ei baratoi a bydd yn destun proses ymgynghori ar wahân.

Dyma'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd yn erbyn y cynnig:

Sylwadau mewn perthynas â'r broses ymgynghori

"Pam mai dim ond pythefnos y mae preswylwyr yn ei gael i ymateb tra bod y cyngor yn cael blynyddoedd i greu'r cynlluniau"

"rhowch wybod i mi sut fyddwch yn gwneud y penderfyniad terfynol – a fydd yn seiliedig ar nifer y gwrthwynebiadau gan breswylwyr yn erbyn faint o rieni sy'n sicrhau y byddant yn gadael eu ceir ac yn cerdded gyda'u plant?"

“Rwy’n flin nad ymgynghorwyd ag unrhyw berchnogion busnes ar y gyffordd hon am y cynigion hyn a sut y byddent yn effeithio ar ein busnesau”

“Dim ond 14 diwrnod yr ydych wedi’i roi i breswylwyr adolygu a herio eich cynigion. Gallai preswylwyr fod ar wyliau ac nid ydych wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i bryderon preswylwyr”

Mae cyfnod ymgynghori am bythefnos yn arferol yn ein proses ymgynghori cyhoeddus ar Broiectau Trafnidiaeth. Fodd bynnag, er bod y ddogfen ymgynghori wedi nodi dyddiad cau o 31 Gorffennaf 2017, rydym wedi derbyn adborth ar yr ymgynghoriad tan ddydd Gwener 18 Awst 2017, gan ein bod yn cydnabod bod yr ymgynghoriad hwn wedi digwydd dros y Gwyliau Haf. Gan fod ein cynlluniau yn dilyn proses helaeth sy’n pasio trwy nifer o gamau, nid yw bob amser yn bosibl oedi dechrau ein hymgyngghoriad er mwyn osgoi’r cyfnod gwyliau haf.

Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella’r cynllun a mynd i’r afael â gofidiau lleol pan fydd yn bosibl. Mae’r penderfyniad o ran p’un ai a fydd cynllun yn parhau neu beidio yn seiliedig ar nifer y preswylwyr sy’n cytuno neu’n anghytuno â’r cynigion. Caiff pob sylwad a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn eu hystyried yn ofalus er mwyn ein galluogi ni i wneud penderfyniad ar y camau y dylid eu cymryd i ymdrin â’r materion a godwyd. Ar ôl gorffen yr Adroddiad Ôl-Ymgynghoriad a’i drafod â’r Aelodau Ward Lleol, bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi. Bydd yr adroddiad yn nodi’r materion ac yn rhoi ymateb y dyluniwr iddynt, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ystyrir yn briodol. Yna, bydd hyn yn nodi cynnydd bwriedig y cynllun, gan gynnwys unrhyw newidiadau, adolygu neu ganslo’r cynnig presennol.

Pan fydd yr adroddiad wedi’i orffen, bydd copi ohono’n cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ar www.caerdydd.gov.uk/ProjectauTrafnidiaeth gan ddewis y ddolen ôl-ymgyngghoriad dan y teitl cynllun perthnasol. Fel arall, mae copi papur ar gael drwy e-bostio ProjectauTrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk Caiff hysbysiadau safle eu harddangos ar y stryd o fewn yr ardal Cynllun Traffig arfaethedig a fydd yn rhoi gwybod i’r cyhoedd am ganlyniad y broses ymgynghori (gan eu cyfeirio at wefan y Cyngor i gael rhagor o wybodaeth), gan na fydd unrhyw lythyru ychwanegol yn cael ei gynnal.

Codwyd nifer o faterion mewn perthynas â cholli lleoedd pharcio a’r cynllun parcio preswylwyr cyfredol

Bydd cael gwared ar leoedd parcio o ganol Wyndham Crescent yn gwaethygu’r sefyllfa sydd eisoes yn bodoli a’r diffyg lleoedd parcio yn yr ardal.

...Bydd hyn yn arwain at ostyngiad yn nifer y lleoedd parcio, mae angen mwy o leoedd parcio nid llai

Gyda’r cynnig i leoli croesfan sebra yma ni fydd cyfle i barcio y tu allan i rifau 78 a 90

Nid oes digon o leoedd fel y mae hi i breswylwyr ar gyfer nifer y tai yn Wyndham Crescent

Un broblem gyffredin yn yr ardal yw ceir sy’n parcio ar draws cyrbau is wrth groesfannau ffordd. Fyddai’n bosibl nodi’r rhain â llinellau melyn dwbl i atal parcio o’r fath?

Mae gennyf bryderon helaeth ynghylch parcio yn yr ardal. O'r cynigion yr ydych wedi'u hamlinellu, ymddengys bod o leiaf SAITH lle parcio ar y stryd wedi'u colli gyda'r groesfan sebra ar Romilly Crescent a'r pedwar 'rhwyrstr ymwthiol'.

Gofynnaf i Wyndham Crescent fod â 75% o leoedd parcio i breswylwyr oherwydd dim ond ar ochr y ffordd y gallwn barcio.

Gyda'r newidiadau arfaethedig i'r cynllun ffyrdd, a chan ystyried defnyddwyr y bwyty, mae'n mynd i fod hyd yn oed yn anoddach ddod o hyd i unrhyw leoedd parcio i breswylwyr Romilly Crescent.

Allwch chi sicrhau y bydd mwy o leoedd i breswylwyr yn cael eu darparu i ni yn yr ardal hon o fewn y cynllun newydd hwn?

Llai o leoedd parcio ar gael (mae parcio eisoes yn ddigon anodd a bydd yn cael effaith ar y strydoedd amgylchynol gan fod preswylwyr Wyndham Crescent yn chwilio am leoedd amgen i barcio ynddynt

Rwy'n gwrthwynebu'r newidiadau a gynigir gan y cyngor i nifer y lleoedd parcio i breswylwyr yn Wyndham Crescent

Mae parcio eisoes yn broblem fawr yn yr ardal. Byddai cael gwared ar leoedd yn achosi problem enfawr.

Rydym wedi adolygu lleoliad y groesfan sebra a chaiff y groesfan sebra a gynigir y tu allan i rif 84 ei dynnu o'r cynnig, a bydd y Patrol Croesi Ysgol yn parhau i gael ei weithredu ar y rhwystr ymwthiol presennol h.y. y tu allan i rif 78.

Caiff y marciau ffordd igam-ogam eu lleihau i'r hyd gofynnol a ganiateir er mwyn colli cyn lleied â phosibl o leoedd parcio.

Ar hyn o bryd, mae parcio'n digwydd wrth gyffyrdd y ffyrdd ochr â Wyndham Crescent. Mae'r Cod Priffyrdd yn nodi 'Peidiwch â stopio neu barcio gyferbyn â chyffordd neu o fewn 10 metr iddi', mae'r rhwystrau ymwthiol yn ofynnol i wella diogelwch i gerddwyr sy'n croesi'r cyffyrdd, i amddiffyn llinellau gweld gyrwyr a hwyluso symudiadau cerbydau. O'r blaen roedd cerbydau'n cael eu parcio'n agos at y cyffyrdd hyn, diben y cynnig hwn yw gwella gweledd i gerddwyr a gyrwyr, a dylid atal parcio anniogel a/neu anghyfreithlon.

Bydd 9 lle parcio ychwanegol pan gaiff y cyfyngiadau parcio presennol yn ardal rhif 114 Wyndham Crescent a Rhif 9 Romilly Crescent eu dirymu. Bydd 4 lle parcio'n cael eu colli wrth y rhwystrau ymwthiol. Bydd hyn yn arwain at gynnydd net o 5 lle parcio o ganlyniad i'r cynllun hwn.

Mae nifer o leoliadau lle mae pobl ar hyn o bryd yn parcio'n anghyfreithiol ac yn anniogel yn unol â Rheol 243 Rheolau'r Ffordd Fawr. Ni fydd y lleoedd ar gael mwyach gan fod y rhwystrau ymwthiol yn cael eu cynnig fel rhan o'r cynllun hwn. Felly nid yw hyn yn cael ei ystyried fel colli lleoedd parcio ond yn hytrach gwelliant sylweddol o ran diogelwch y ffyrdd, yn enwedig i ddefnyddwyr ffordd agored i niwed megis cerddwyr a beicwyr.

Mae Cyngor Caerdydd yn ymwybodol o'r galw am leoedd parcio a byddwn yn cymryd yr holl fesurau i sicrhau bod cymaint â phosibl o leoedd parcio ar gael o fewn y math hwn o gynllun. Fodd bynnag, mae diogelwch i gerddwyr a hwyluso symudiad cyfleus a diogel i gerddwyr, yn enwedig i'r ysgol ac adref, yn cael ei ystyried yn bwysig iawn. Yn unol â pholisïau a strategaeth y Cyngor, mae hwn yn bwysicach na darparu lleoedd parcio.

Dylid pwysleisio na all y Cyngor reoli lefelau perchnogaeth ceir. Gan fod cynifer o breswylwyr lleol yn berchen ar geir, mae diffyg lleoedd parcio, sy'n ei gwneud yn anos i gynllun parcio i breswylwyr lwyddo.

Mae'r Strategaeth Parcio Caerdydd gyfredol yn nodi y gallai cyfleusterau parcio i breswylwyr yn unig gael eu cynyddu i 75% o leoedd parcio mewn ardaloedd sydd â phwysau parcio difrifol pan fo'r lefel yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos o fewn y manau presennol yn cyrraedd 70% neu fwy. Mae arolygon parcio wrthi'n cael eu cynnal i asesu p'un ai a yw Wyndham Crescent a'r ffyrdd amgylchynol yn diwallu'r meini prawf a nodir yn y Strategaeth Parcio. Yna caiff adolygiad o'r trefniant parcio cyfredol ei gynnal gan dîm Polisi'r Cyngor.

Codwyd nifer o faterion mewn perthynas â'r ffaith y gallai colli lleoedd parcio effeithio ar fusnesau lleol

"Sut caiff fy stoc ei ddanfôn i'r siop? Ni all paled o baent gael ei ddanfôn ataf ar droli os nad oes unrhyw le i'r lori ddanfôn barcio."

"Mae'r busnesau hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar gwsmeriaid sy'n teithio cryn bellteroedd i siopa neu fwyta. Gan fod nifer o'r busnesau ar y gyffordd hon yn unigryw (nid fel y rheiny y byddech yn eu cael mewn parc manwerthu mawr) mae cwsmeriaid sydd eisiau prynu eitemau arbenigol yn debygol o deithio cryn bellter i siopa. Hefyd, mae busnesau angen rhywle agos i lwytho a dadlwytho"

Dan y cynigion hyn, caiff y cyfyngiadau parcio yn ardal Rhif 9 Romilly Crescent eu dirymu. Felly bydd cyfle i droi hwn yn lle llwytho gyda chyfyngiadau amser penodol i fusnesau ei ddefnyddio i lwytho a dadlwytho. Caiff adolygiad o'r trefniant parcio cyfredol ei gynnal gan dîm Polisi'r Cyngor fel rhan o'r adolygiad ehangach o'r cyfyngiadau parcio a pharcio i breswylwyr yn yr ardal.

Ar ôl i'r broses Ymgynghori ar y Project Trafnidiaeth ffurfiol ddod i ben a phenderfyniad yn cael ei gytuno ar sut ddylid bwrw ymlaen â'r cynllun hwn, byddwn yn rhoi cyfarwyddyd i'r tîm Gorchymyn Rheoli Traffig i ddechrau ar broses Gorchymyn Traffig cyfreithiol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cyfyngiadau parcio hyn ar y ffordd. Yn rhan o'r broses Gorchymyn Rheoli Traffig, bydd hysbysiadau safle'n cael eu rhoi ar y safle i roi gwybod i'r cyhoedd am y cynigion. Bydd yr hysbysiadau hyn yn rhestru union ddimensiynau unrhyw Orchymynion Rheoli Traffig ar gyfer yr ardal.

Sylwadau sy'n gysylltiedig â llygredd golau posibl

"Bydd hefyd llygredd golau gyda goleuadau'n fflachio yn effeithio ar ystafelloedd gwely."

Mae'r goleuadau arfaethedig yn cynnwys goleuadau LED yn eu gwneuthuriad, ac felly byddan nhw'n pelydru golau yn bennaf i gyfeiriad y traffig sy'n dod tuag atynt, ac ychydig iawn o olau sy'n pelydru o ochrau'r goleuadau i eiddo gerllaw.

Sylwadau mewn perthynas â lleoliad a dyluniad y groesfan sebra

"Pam symud y groesfan?, Adeiladwyd y man croesi gyda miloedd o bunnoedd o arian y dreth gyngor, pam na rowch y groesfan sebra ar y man croesi presennol?"

“Mae hyd y llinellau igam-ogam sebra yn rhy hir, rwyf wedi gweld esiamplau yng Nghaerdydd sydd llawer byrrach. Mae lled car bob ochr yn fwy na digonol.”

Caiff y groesfan sebra a gynigir y tu allan i rif 84 ei dynnu o'r cynllun, a bydd y Patrôl Croesi Ysgol yn parhau i gael ei weithredu ar y rhwystr ymwithiol h.y. y tu allan i rif 78. Rydym yn asesu p'un ai a ellid lleoli croesfan sebra mewn lleoliad amgen ar Wyndham Crescent. Mae dyluniad y cysyniad wrthi'n cael ei baratoi a bydd yn destun proses ymgynghori ar wahân.

Caiff y marciau ffordd igam-ogam eu lleihau i'r hyd gofynnol a ganiateir er mwyn colli cyn lleied â phosibl o leoedd parcio.

Sylwadau mewn perthynas â'r effaith bosibl ar werth eiddo

Bydd hyn yn cael canlyniadau o ran pris a'r gallu i werthu'r tai yr effeithir arnynt

Gwerth is eiddo ar Wyndham Crescent a dymunoldeb yr ardal fel lle i brynu / rhentu

o ystyried effaith ariannol posibl eich gwaith h.y. yn debygol o arwain at ostyngiad o ran pris eiddo, hoffwn ddeall pa iawndal ariannol y byddwch yn ei gynnig i breswylwyr.

Nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos y byddai'r cynnig hwn yn cael effaith negatif neu bositif ar brisiau tai, fodd bynnag, mae croeso i breswylwyr geisio cyngor cyfreithiol annibynnol ar y mater hwn.

Er ein bod yn cydnabod y pryderon a godwyd, yn anffodus nid oes unrhyw fodd y gall y Cyngor Sir gynnig cymorth i unigolion.

Sylwadau gyda phryderon diogelwch ar y cynigion

Bydd nifer o reolaethau o fewn pellter byr yn golygu y bydd yr holl ddodrefn stryd, rhwystrau ymwithiol ac arosfannau bws ond yn tynnu sylw gyrwyr rhag gweld y peryglon posibl gan felly wneud y ffordd yn fwy peryglus i gerddwyr, beicwyr a defnyddwyr eraill y ffordd

Bydd eich cynigion i gael gwared ar linellau melyn dwbl yn cynyddu'r peryglon traffig ar draws Wyndham Crescent a'r un heriau a brofir gan y rheiny ar Severn Road ar hyn o bryd.

Mae arafu traffig yn ffordd effeithiol o leihau damweiniau ffordd. Bydd y traffig yn gyrru ar gyflymderau arafach a fydd yn creu amgylchedd priffordd fwy diogel i holl ddefnyddwyr y ffordd.

Ni chaiff y cyfyngiadau parcio ar ochr y de-orllewin Wyndham Road eu tynnu dan y cynigion hyn.

Sylwadau mewn perthynas â gorfodi cyfyngiadau parcio

Bydd yn cynyddu'r anrhefn gyda rhieni'n parcio'n anghyfreithlon i ollwng a chasglu plant o'r ysgol

Rhieni plant yn St Mary's yn parcio'n beryglus ar y llinellau melyn dwbl ar Wyndham Crescent ar yr un ochr â'r ysgol ac hefyd yn parcio yn yr holl fannau parcio i breswylwyr yn unig

ddwywaith y dydd, 5 diwrnod yr wythnos a 40 wythnos a mwy o'r flwyddyn mae rhieni'n parcio ar hap, yn beryglus ac yn anghyfreithlon i fyny ac i lawr y Crescent ac ar Wyndham Road pan fônt yn gollwng eu plant yn yr ysgol

Sut fyddwch yn gwella diogelwch plant gyda gyrru / parcio anghyfrifol rhieni sy'n gollwng / casglu eu plant o'r ysgol. Mae'r rhieni hyn yn creu perygl traffig mwy nag unrhyw beth arall sy'n digwydd ar y ffordd ar hyn o bryd.

Caiff llythyr ei anfon i'r ysgol i atgoffa rhieni os ydynt yn dewis gyrru eu plant i'r ysgol y dylent barcio'n ddiogel, yn gyfreithlon ac yn ystyriol o eraill.

Bydd Swyddogion Gorfodi Dinesig y Cyngor yn gorfodi'r cyfyngiadau parcio'n gyson. Mae methu â chydymffurfio â chyfyngiadau parcio yn fater i Swyddogion Gorfodi Parcio Dinesig sydd ar gael ar 02920872087 saith niwrnod yr wythnos rhwng 0700 a 2200.

Hefyd, bydd tîm Addysg Diogelwch Ffyrdd y Cyngor yn gweithio gyda'r ysgol i godi ymwybyddiaeth diogelwch ffyrdd yn yr ysgol, a chynnig hyfforddiant ymarferol megis Kerbcraft a hyfforddiant beicio, er mwyn rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar blant i gerdded i'r ysgol yn ddiogel.

Sylwadau mewn perthynas â llygredd posibl

Oherwydd y cynnydd o ran twmpathau ffordd a thoriadau bydd llygredd a sŵn yn cynyddu

Rwyf eisiau tynnu eich sylw at gynlluniau'r Llywodraeth i dynnu'r rhwystrau cyflymder ac felly sut fydd y groesfan sebra yn cydymffurfio â'r cynigion hynny

Nid ydym yn cynnal arolygon sŵn cyn neu ar ôl gosod nodweddion arafu traffig fel y rhain. Rydym yn dibynnu ar Ganllawiau'r Adran Drafnidiaeth megis y Llyfryn Ymgynghorol ar Draffig 6/96 a'r Nodyn Trafnidiaeth Leol 1/07. Mae'r cyngor a geir yn y dogfennau hyn yn dweud "Conventional methods of measuring traffic noise do not readily expose annoyance factors associated with changes in the variability of noise . Consequently, it is difficult to predict accurately the perceived noise impact of traffic calming schemes (Abbot et al., 1995b)." Felly nid ydym yn cynnal arolygon sŵn.

Awgrymodd strategaeth ansawdd aer cenedlaethol diweddaraf y Llywodraeth y gallai tynnu twmpathau ffordd gael ei ystyried fel dewis amgen i godi tâl mewn Parthau Aer Glân, fodd bynnag mae grwpiau diogelwch ffyrdd wedi codi pryderon y gallai hyn arwain at wrthdrawiadau a gostyngiad o ran diogelwch ffyrdd. Ar hyn o bryd, nid oes gan Gyngor Caerdydd unrhyw gynlluniau i dynnu twmpathau ffordd, yn enwedig o ardaloedd preswyl gyda llifoedd traffig is, nid oes gan ardaloedd o'r fath fel arfer broblemau ansawdd aer, felly nid yw twmpathau cyflymder yn cyfrannu'n helaeth at gyfanswm y llygryddion.

Sylwadau mewn perthynas â dirgryniadau posibl

Rwy'n bryderus ynghylch dirgryniadau

Rampiau cyflymder yw'r unig ddull sydd ar gael i ni ar hyn o bryd i leihau cyflymderau'n effeithiol er mwyn gwella diogelwch ffyrdd i ddefnyddwyr agored i niwed. Yn anffodus, efallai

y teimlir rhai dirgryniadau mewn eiddo cyfagos pan fo cerbydau masnachol mawr yn gyrru dros y rampiau cyflymder.

Mae canllawiau'r Adran Drafnidiaeth ar dwmpathau ffordd a dirgryniadau o'r ddaear yn seiliedig ar y Safon Brydeinig 7385: Rhan 2 sy'n nodi gwerthoedd trothwy'r dirgryniadau a all achosi mân ddifrod cosmetig i adeiladau. Defnyddiwyd y gwerthoedd hyn i gyfrifo'r pellter lleiaf y gellir lleoli twmpathau ffordd o anheddau, yn ôl natur y pridd. Mae'r tabl yn dangos na ddylai hyn achosi mân graciau trwch blewyn oni bai bod y rhwystrau wedi cael eu gosod llai na 4m o annedd, hyd yn oed ar y pridd meddalaf, er ei bod yn bosib y gellid teimlo effeithiau cerbyd masnachol yn croesi'r rhwystr ar bridd meddal hyd at 76m o'r safle. Fodd bynnag, gan fod yr holl eiddo dan sylw y tu hwnt i'r pellter lleiaf a nodwyd yn y canllawiau, ystyrir na achosir unrhyw ddifrod adeileddol o ganlyniad i ddirgryniad.

Sylwadau mewn perthynas â chyflymder traffig

Rydych yn nodi bod 'cyflymderau traffig uchel' yn rheswm arall a roddir o ran pam na wnaiff rhieni gerdded gyda'u plentyn i'r ysgol – ond rydych newydd wneud y Crescent yn barth 20mya – felly sut all hynny fod yn wir o hyd?

Mae'r Cyngor wrthi'n gweithredu cyfyngiadau cyflymder 20mya newydd yng Nghaerdydd, mae'r rhain yn rhan o ddull strategol i newidiadau cyfyngiad cyflymder. Mae'r ardaloedd newydd hyn yn gynlluniau 'arwyddion yn unig' yn gyffredinol, a chânt eu gwella gyda mesurau arafu traffig ffisegol lle bo'n briodol, megis wrth groesfannau cerddwyr neu yn ardal ysgolion.

Sylwadau mewn perthynas â'r Ardal Gadwraeth

Byddwch yn ymwybodol bod y mesurau gwella a gynigir ar hyd Romilly Crescent o fewn Ardal Gadwraeth Conway Road. Ni ddarperir llawer o fanylion mewn perthynas ag ansawdd gorffeniad y rhwystrau ymwithiol. Yn absenoldeb gwybodaeth o'r fath, gofynnaf i'r rhwystrau ymwithiol gael eu hadeiladu gyda phafin ansawdd uchel priodol sy'n sensitif i leoliad yr Ardal Gadwraeth

Felly gofynnaf i'r cyfle unigryw hwn gael ei ddefnyddio i ailgyflwyno rhai coed i'r rhwystrau ymwithiol, yn benodol y rheiny yn yr Ardal Gadwraeth ar gyffyrdd Romilly Crescent a Wyndham Road.

Mae'r sylwadau wedi'u nodi ac fe'u hystyrir fel rhan o'r broses ddylunio fanwl.

Dyma'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd o blaid y cynnig:

Yn fras, rwyf o blaid y newidiadau i'r ffordd yn Severn Road, ac mae'r rhain yn cael effaith fach ar breswylwyr, a byddant yn helpu i wella diogelwch ffyrdd

Rwy'n cefnogi'r defnydd o groesfannau sebra ychwanegol ac yn fwy na hynny y defnydd o fyrdau arafu yn yr ardal i helpu ag arafu traffig. Hefyd, rwy'n cefnogi'r cynigion yn llawn i

adeiladu rhwystrau ar rai o'r cyffyrdd sy'n rhy llydan ar hyn o bryd. Rwy'n credu y bydd y cynlluniau arfaethedig yn gwella diogelwch i gerddwyr yn sylweddol

Ysgrifennaf i fynegi fy nghefnogaeth o'r cynllun rheoli traffig arfaethedig. I ni, y gyffordd â Severn Road a Wyndham Crescent yw'r gwaethaf gyda gyrwyr yn aml yn troi i mewn i Severn Road hyd yn oed os ydw i yng nghanol y ffordd, yn croesi gyda fy mhlant.

Yn gyntaf, hoffwn ddweud pa mor hapus ydw i fod y mesurau'n mynd i gael eu rhoi ar waith i ostwng cyflymder y traffig ar Wyndham Crescent a Romilly Crescent gan mai dim ond ychydig o gerbydau (gan gynnwys bysus rhif 61) sy'n cadw at y cyfyngiad cyflymder 20mya.

Ni ddylem ddarparu lleoedd parcio ar draul diogelwch cerddwyr yn enwedig plant sy'n cerdded i'r ysgol, rwy'n beicio gyda fy mhlant i'r ysgol ac i'r gwaith ond mae rhieni eraill a chydweithwyr yn ychwanegu at y traffig oherwydd maent yn ofni'r traffig i gerdded neu feicio i'r gwaith neu'r ysgolion.

Mae arafu traffig yn ddealladwy ac yn angenrheidiol, ond mae cael gwared ar lleoedd parcio sydd wir ei angen yn gynnig hollol hurt

Mae'r llwybr cerdded rydym yn ei ddefnyddio fwyaf (i siopau, i'r parc ac ati) yn mynd â ni ar draws y gyffordd sy'n beryglus ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd nid oes man croesi diogel a chyda ceir wedi'u parcio ar ochr y ffordd mae'n anodd gweld. Mae neiniau a theidiau fy merch hefyd yn cerdded gyda hi dros y gyffordd ac wedi mynegi pa mor agored i niwed maen nhw'n teimlo ar hyn o bryd. Bydd y groesfan a'r rhwystrau ymwthiol arfaethedig yn ein helpu ac yn ein hannog i gerdded mwy.

Rwy'n cefnogi'r mesurau a gynhelir oherwydd bod wir angen cyfleusterau croesi gwell a mesurau arafu traffig arnom yn yr ardal.

Rwy'n cydnabod ac yn cytuno â'r angen am reoliadau traffig ar hyd Wyndham Crescent a Romilly Crescent, yn enwedig o ystyried bod dwy ysgol gynradd yn yr ardal â nifer fawr o bobl yn cerdded yno ar adegau prysur. Croesewir y cyfyngiad cyflymder 20mya a byddem yn croesawu mesurau arafu traffig pellach hefyd. Fodd bynnag, mae pryder gwirioneddol nad yw'r cynigion yn ymdrin â'r broblem o ddiffyg lleoedd parcio.

Codwyd sylwadau mewn perthynas â Romilly Crescent

Mae hyd 200m a 300m Romilly Crescent i'r gogledd-orllewin o'r cynllun arfaethedig wedi bod yn destun nifer o ddamweiniau traffig ffordd yn y blynyddoedd diwethaf..... ac felly gofynnaf i chi ystyried adeiladu bwrdd arafu ychwanegol yng nghyffordd Romilly Crescent-Conway Road

Yn anffodus, mae'r cais hwn y tu allan i gwmpas y project hwn. Mae'r sylwadau wedi'u nodi a chânt eu hystyried fel rhan o'n proses ymchwilio ardaloedd flynyddol i ddiogelwch ar y ffordd.

Codwyd nifer o faterion a cheisiadau mewn perthynas â Wyndham Road

"bydd rhai gyrwyr bob tro yn defnyddio Wyndham Road i geisio trechu'r rheoliadau traffig ar Wyndham Crescent a fydd yn arwain at fwy o draffig, gyrru a phroblemau dilynol ar Wyndham Road.

"bydd llai o leoedd parcio ar Wyndham Crescent sy'n golygu y bydd mwy o alw am leoedd parcio ar Wyndham Road.."

Gwnaed nifer o awgrymiadau gan breswylwyr

- 1. Parcio esielon:*
- 2. System un ffordd*
- 3. Cyfyngiadau parcio ychwanegol ar y troad*
- 4. Cyfyngiadau parcio ar ddwy gyffordd Wyndham Road â Wyndham Terrace*
- 5. Mynediad yn unig*
- 6. Cais am fesurau arafu traffig*
- 7. Cais am gynllun parcio 75% preswylwyr*

Byddwn yn ymateb i'r rhain fel a ganlyn:

1. Gellir cyflwyno parcio esielon dim ond ar ffordd lle mae digon o ofod ar y ffordd i gerbydau sy'n mynd am yn ôl a throi sef yr hyn y mae cynllun o'r fath yn ei olygu. Mae Wyndham Road ychydig dros 8 metr o led a gellid gosod parcio esielon ar un ochr o'r ffordd yn unig a wedi hynny dim ond os oedd y parcio ar yr ochr gyferbyn yn cael ei wahardd drwy gyflwyno llinellau melyn dwbl. Felly ni fyddai cynllun o'r fath yn cynnig mwy o leoedd parcio.
2. Mae cyflwyno system un ffordd yn debygol o weld cynnydd o ran cyflymderau cerbydau ar y ffordd, oherwydd ni fyddai gwrthwynebiadau i yrwyr. Fodd bynnag, caiff ei asesu yn yr Ymchwiliad Ardal Blyneddol o broblemau diogelwch ffyrdd.
3. Caiff ei ystyried fel rhan o'r adolygiad ehangach o gyfyngiadau parcio ar Wyndham Crescent a Wyndham Road.
4. Caiff ei ystyried fel rhan o'r adolygiad ehangach o gyfyngiadau parcio ar Wyndham Crescent a Wyndham Road.
5. Rydym yn gwerthfawrogi y byddai preswylwyr yn dymuno lleihau lefelau traffig a pharcio yn Wyndham Road drwy Orchymyn "Mynediad yn Unig". Mae'r heddlu wedi dweud na fyddent yn gallu cefnogi Gorchmynion traffig o'r fath oherwydd pa mor anodd yw hi i'w gorfodi. O ganlyniad, nid yw cyfyngiadau "Mynediad yn Unig" mwyach yn cael eu gweithredu gan y Cyngor.
6. Caiff y cais am fesurau arafu traffig ei asesu yn yr Ymchwiliad Ardal Blyneddol o broblemau diogelwch ffyrdd.
7. Mae arolygon parcio wrthi'n cael eu cynnal i asesu p'un ai a yw Wyndham Road a'r ffyrdd o'i hamgylch yn diwallu'r meini prawf ar gyfer 75% Parcio i Breswylwyr a nodir yn y Strategaeth Parcio. Yna caiff adolygiad o'r trefniant parcio cyfredol ei gynnal gan dîm Polisi'r Cyngor.



This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnig rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun diwygiedig a welir.

A Proud Capital
Prifddinas Falch



Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3802 i ofyn am gopi papur o'r adroddiad ymgynghori.



Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme on the revised plan shown.

Further details about this consultation are available at www.cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3802 to request a paper copy of the post-consultation report.